

PROFFIL RÔL

Teitl y swydd Rheolwr Cyfathrebu

Adrodd i Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol

Lleoliad Campws Chwaraeon Rhyngwladol Caerdydd, Lecwydd, Caerdydd (CF11 8AZ) gyda hyblygrwydd i weithio gartref

Patrwm gweithio Llawn amser (37 awr / wythnos)

Mae patrymau gweithio hyblyg ar gael, a gall y gwaith olygu bod mewn digwyddiadau gyda'r nos / dros y penwythnos yn rheolaidd o fewn yr wythnos 37 awr

Pwrpas y rôl Rheoli datblygiad a darpariaeth mentrau cyfathrebu effeithiol mewn print, ar y wefan ac ar y cyfryngau cymdeithasol. Hysbysu rhanddeiliaid mewnol ac allanol a chynyddu proffil ac enw da Athletau Cymru trwy gysylltiadau cryf â'r cyfryngau.

Sicrhau bod gwefan Athletau Cymru a thudalennau cyfryngau cymdeithasol yn cael eu cynnal a'u datblygu'n rheolaidd, a bod cynnwys cyson a dengar yn cael ei gyhoeddi ar gyfer ein cymuned.

Cyllidebau Bod yn gyfrifol am wario'r gyllideb Marchnata a Chyfathrebu yn effeithlon.

Rhyngwynebau allweddol Ein clybiau a'n haelodau, cydweithwyr a deiliaid cyllidebau ar draws y sefydliad ac aelodau'r cyhoedd sy'n cysylltu ag Athletau Cymru.

Cyfrifoldebau allweddol

Corfforaethol

- Bod yn gyfrifol am gynhyrchu deunydd marchnata a chynnwys ar-lein.
- Datblygu cynlluniau marchnata a hyrwyddo ar gyfer mentrau allweddol.
- Sicrhau bod negeseuon sy'n dod i mewn ar y cyfryngau cymdeithasol yn cael eu trin yn systematig.
- Rhoi dadansoddiad o ddata i'r Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol a'r Uwch Dîm Rheoli er mwyn helpu i lywio datblygiad rhaglenni'r dyfodol.
- Creu a datblygu gwefan gwbl ddwyieithog yn raddol a sicrhau bod holl ddatganiadau Athletau Cymru i'r wasg yn gwbl ddwyieithog.

Allanol

- Rheoli a diweddarau gwefannau a thudalennau cyfryngau cymdeithasol Athletau Cymru yn rhagweithiol gyda chynnwys perthnasol, cywir a diddorol.
- Ymgysylltu â darparwyr cyfryngau rhanbarthol a chenedlaethol i ddatblygu cysylltiadau cryf a sicrhau sylw uchel ei broffil.
- Ysgrifennu copi diddorol i gynulleidfa amrywiol ac ar draws amrywiaeth o sianeli.
- Paratoi datganiadau i'r wasg, ymateb i ymholiadau gan y cyfryngau, dod o hyd i luniau, gosod straeon, defnyddio eich menter i ysgogi diddordeb a chreu cyfleoedd newydd i gael sylw yn y cyfryngau.
- Bod yn gyfrifol agweddau cyfathrebu a marchnata digwyddiadau Athletau Cymru, gan gynnwys cystadlaethau a seremoniau gwobrwyo.
- Datblygu mentrau er mwyn cynyddu'r niferoedd sy'n dilyn tudalennau Athletau Cymru ar yr amrywiol gyfryngau cymdeithasol, gan ganolbwyntio'n benodol ar ymgysylltu â grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol.
- Helpu gyda'r gwaith o ysgrifennu deunydd marchnata yn ôl y gofyn.
- Cefnogi aelod-glybiau i greu gwefan, tudalennau ar y cyfryngau cymdeithasol a llwybrau cyfathrebu.
- Mynychu cystadlaethau allweddol gan roi cymorth a diweddariadau i'r cyfryngau yn ôl yr angen.
- Sicrhau bod yr holl drafodion, gweithdrefnau a chofnodion yn cydymffurfio â'r polisiau a'r gweithdrefnau perthnasol.
- Ymgymryd â thasgau eraill er mwyn cefnogi gweithrediadau busnes yn ôl gofyn yr adran.

Mewnol

- Recriwtio a rheoli tîm o staff achlysurol a staff asiantaeth i gynorthwyo gyda'r gwaith o gyflwyno gweithgaredd cyfathrebu.
- Gweithio'n agos gyda'r adran Gystadlaethau i hyrwyddo a pharatoi adroddiadau ar ddigwyddiadau athletau ar draws pob disgyblaeth.
- Gweithio'n rhagweithiol gyda chydweithwyr, gwirfoddolwyr a phartneriaid / rhanddeiliaid eraill i ddatblygu cynnwys hyrwyddol a rhannu gwybodaeth gyda'n cymuned trwy gylchlythyrau ac ar-lein.
- Bod yn gyfrifol am wario'r gyllideb Marchnata a Chyfathrebu yn effeithlon.
- Cynorthwyo i hybu cyfathrebu mewnol cadarnhaol

Addysg, Sgiliau a Phrofiad

Byddwch yn rhywun sydd â sgiliau cyfathrebu ardderchog, sy'n gweithio'n dda mewn tîm, byddwch yn barod i dorchi'ch llewys a gwneud yr hyn sydd ei angen i roi gwasanaeth gwych i'n haelodau. Rhinweddau eraill:

	Hanfodol	Manteisiol
Gallu defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol	✓	
Gwybodaeth sylfaenol am gyfreithiau hawlfraint ac egwyddorion moesegol sy'n ymwneud â chyhoeddi	✓	
Profiad o systemau gwefannau a chreu gwefannau	✓	
Profiad o ysgrifennu adroddiadau i'r cyfryngau	✓	
Profiad o feddalwedd cyhoeddi	✓	
Profiad o gynhyrchu cyfryngau (e.e. fideo, ffotograffiaeth)	✓	
Gwybodaeth am bob un o ddisgyblaethau athletau	✓	
Gwybodaeth am Athletau Rhyngwladol		✓
Profiad o gyflwyno gwybodaeth i ystod eang o gynulleidfaoedd / partneriaid		✓
Rhywfaint o brofiad o ddefnyddio Google Analytics neu offer gwerthuso tebyg a/neu wybodaeth am adnoddau o'r fath		✓
Cysylltiadau â phrif allfeydd y cyfryngau yng Nghymru a'r DU		✓
Cymraeg	✓	
Gallu teithio ledled Cymru (a Phrydain yn ôl yr angen)	✓	
Sgiliau TG, gan gynnwys defnyddio Microsoft Office, e-bost a'r rhyngwrwyd	✓	
Sgiliau cyfathrebu rhagorol ar lafar ac yn ysgrifenedig.	✓	
Sgiliau trefnu a sgiliau gweinyddol rhagorol	✓	
Profiad o reoli gwefan	✓	
Gallu gweithio dan bwysau	✓	
Y gallu i weithio o fewn terfynau amser	✓	
Sylw agos i fanylion	✓	
Hunan-gymhellol a gallu gweithio ar eich menter eich hun	✓	
Gweithio'n dda mewn tîm ac yn barod i arwain	✓	
Hyblyg a pharod i addasu yn ôl y galw	✓	
Gallu ennyn brwdfrydedd ac ysgogi eraill	✓	

Nid yw'r proffil rôl hwn yn un cyflawn. Fe'i bwriedir fel dynodiad amlinellol o'r meysydd gwaith ac fe'i trafodir gyda chi a'i ddiwygio dros amser yng ngoleuni anghenion newidiol y cwmni.

Pecyn Buddion**Cyflog** £30,000 i 34,000 y flwyddyn, llawn amser**Cyfnod** Parhaol**Gwyliau** 25 diwrnod â thâl o wyliau blynyddol yn ogystal ag 8 diwrnod â thâl ar wyliau'r banc**Oriau** Llawn Amser - 37 awr yr wythnos**Buddion eraill** Cynllun Pensiwn y Cwmni (cyflogwr yn gwneud cyfraniad cyfatebol o hyd at 6%)

Parcio am ddim ar y safle yn ein swyddfeydd (NIAC, CISC)

Cyfleoedd hyfforddi a datblygu gyrfa wedi'u hariannu

Cyfnod rhybudd 3 mis**Eisiau ymuno â'n tîm?**

Darllenwch y proffil rôl yn ofalus, yn enwedig yr addysg, y sgiliau a'r profiad hanfodol sy'n ofynnol er mwyn llwyddo cyn mynd i'n gwefan i gychwyn ar eich cais yn:

<https://welshathletics.peoplehr.net/JobBoard>

Dyddiad cau ceisiadau: 29/11/2021**Cynhelir y cyfweiliadau yng Nghaerdydd:** tbc

Rydym yn cadw'r hawl i gau swyddi gwag cyn y dyddiad cau penodedig, pe derbynnir nifer fawr o geisiadau. Gwnewch gais yn gynnar i osgoi cael eich siomi.

Rydym yn penodi gyda system agored a gonest sy'n seiliedig ar arferion gorau presennol ac os oes arnoch chi angen unrhyw gymorth i gwblhau eich cais neu os oes arnoch chi angen fformat gwahanol, cysylltwch â: **Rob Sage** - Rob.sage@welshathletics.org

Sylwer os gwelwch yn dda: Rydym yn ymrwmo i **ddiogelu** a hyrwyddo **lles** plant a phobl ifanc ac yn disgwyl i'r holl staff a gwirfoddolwyr rannu'r ymrwymiad hwn.

Rydym yn ymrwmo i **gynhwysiant** ac yn croesawu ysbryd pob deddfwriaeth **cydraddoldeb**. Lle bo modd, byddwn bob amser yn barod i wneud addasiadau rhesymol i sicrhau hygrychedd i unrhyw un sydd angen hynny.

Nid oes modd i ni gynnig nawdd fisa ac mae'n rhaid bod gan bob ymgeisydd **hawl i weithio yn y DU** er mwyn gwneud cais a chael eich ystyried ar gyfer y swydd hon. Os nad ydych chi'n un o wladolion y Deyrnas Unedig/ UE, rhaid bod gennych chi fisa gwaith priodol er mwyn bod yn gyflogedig. Bydd eich **data personol** yn cael ei gadw am hyd at ddwy flynedd a'i ddefnyddio i ddibenion recriwtio Athletau Cymru yn unig, er mwyn rhoi gwybod i chi am swyddi gwag newydd neu ei brosesu'n unol â swydd wag y byddwch yn gwneud cais amdani yn y dyfodol.

Ni fyddwn byth yn rhoi eich manylion i drydydd parti. I ddysgu mwy am ein dull o barchu eich preifatrwydd, ewch i'n tudalen ar [Breifatrwydd, Cwcis a Hawlfraint](#). I gael mwy o wybodaeth am Athletau Cymru, ewch i'n gwefan a thudalen ['Amdanom Ni'](#).